# Yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd

**Rhaglenni Gradd**
Israddedig 2025



CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Croeso cynnes 1
Ein stori – gwneud gwahaniaeth 2
Astudio dau bwnc 4
Agor eich byd 6
Dechrau da i'ch gyrfa 8
Hanes yr Henfyd 10
Archaeoleg a Chadwraeth 12
Hanes 14
Crefydd 16
Ceisiadau 19

**Roedd**
# 90%
**o'n graddedigion** yn gweithio a/neu'n astudio ymhellach, i fod i ddechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud pethau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.

**Ffynhonnell: Higher Education Ffynhonnell: Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, Arolwg Canlyniadau Graddedigion 2020/21.***

## Cael dimensiwn rhyngwladol

Ehangu eich gorwelion gyda blwyddyn o astudio dramor.

Cartref i **brosiectau arobryn,** gan rannu ein harbenigedd ar gyfer cymunedau yn agos ac yn bell.

## Dychwelyd i addysg?

Beth am gael profiad o'n rhaglen *Archwilio'r Gorffennol?* Ei nod yw cau'r bwlch at astudio ar lefel radd i'r rhai sy'n ystyried gradd yn nes ymlaen yn eu bywydau.

## Arloeswyr 100 mlynedd o ragoriaeth

A ninnau'n arloeswyr archaeoleg yn y DU, buom yn dathlu ein canmlwyddiant yn 2020.

Heddiw, mae ein harbenigwyr ym maes archaeoleg yn manteisio ar ddarganfyddiadau newydd a'r syniadau diweddaraf wrth addysgu bob dydd. Yn fwy na hynny, rydym yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o gadwraethwyr, gan gynnal treftadaeth werthfawr gartref a thramor.

## Rhagoriaeth Ymchwil

### Archeoleg a chadwraeth

**5ed am effaith** a **6ed ar gyfer cynnyrch ymchwil**

Dros **90% o'n hallbynnau ymchwil yn arwain y byd** neu'n rhagorol yn rhyngwladol o ran gwreiddioldeb, arwyddocâd a thrylwyredd.

### Hanes

**17eg ar gyfer pŵer ymchwil**

Ystyrir **bod dros 90% o'n** hamgylchedd ymchwil yn ffafriol i gynhyrchu yn rhyngwladol.

**Source: Research Excellence Ffynhonnell: Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021**


# Croeso cynnes

## Gorwelion mawr, cymuned fwy



Y cyfle i ddysgu am lawer o wahanol ddiwylliannau yw un o'm hoff bethau am yr ysgol, ac un o'r cryfderau mwyaf hefyd yn fy marn i. Mae'r gymuned glos sydd gennym yma wedi bod yn ffactor enfawr o ran cymaint rydw i wedi mwynhau fy nghyfnod yng Nghaerdydd. Mae perthynas wirioneddol wych rhwng gwahanol bynciau o fewn yr ysgol, yn ogystal â rhwng gwahanol grwpiau blwyddyn, lefelau astudio, a myfyrwyr a darlithwyr.

**MJ Spencer,** Hanes yr Henfyd (BA)



Mae Prifysgol Caerdydd yn ddewis gwych. Byddwch yn rhan o'r ysgol orau, sy'n gwrando ar eich anghenion, a darlithwyr sy'n cefnogi eich astudiaethau. Fe wnewch ffrindiau am oes yma; mae Undeb y Myfyrwyr yn un o'r goreuon yn y wlad a dyma'r peth mwyaf hwyliog i'w wneud wrth ochr yn ochr â'ch astudiaethau. Os ydych yn dewis Caerdydd, bydd yn gartref oddi cartref i chi.

**Anna Moller,** Astudiaethau Crefyddol (BA 2022)

# Ein stori
# – gwneud gwahaniaeth

A ninnau'n chwilfrydig am y profiad dynol ar draws milenia a diwylliannau, rydym am ddeall ein gorffennol yn well er mwyn taflu goleuni ar y presennol er budd ein dyfodol.

Drwy ddod â hanes, archaeoleg, cadwraeth a chrefydd at ei gilydd rydym yn canfod, yn dehongli ac yn cadw.

Ni yw gwarchodwyr treftadaeth y dyfodol, a ni fydd yn gwarchod yr hyn a ffurfiodd y byd sydd ohoni – y straeon a'r arteffactau. Dyma ein cenhadaeth, sy'n llywio ein gwaith ymchwil, addysgu ac ymgysylltu.

Dewch yn rhan o'r uchelgais honno a gwnewch wahaniaeth parhaol.

## Arloesi sy'n chwalu rhwystrau

Rydym yn creu argraff yn y byd academaidd a'r tu hwnt, gan gael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau lleol a ledled y byd. Mae ein rhaglenni blaenllaw yn ysbrydoli cenedlaethau newydd i fod yn angerddol am hanes ac archaeoleg.

- Mae ein menter arloesol **Archaeoleg Guerrilla** yn cynnwys archeolegwyr, gwyddonwyr ac artistiaid sy'n ymroddedig i'r gwaith o ddod â'r gorffennol yn fyw. Ers sefydlu yn 2011, rydym wedi mynychu mwy na 50 o wyliau ac wedi annog rhyw 100,000 o bobl i 'gloddio'r gorffennol', gan eu galluogi i ddod o hyd i'w gwirionedd eu hunain yn y gorffennol a meithrin eu cydberthynas eu hunain ag ef.

**Archaeoleg Guerilla**

- Mae ein rhaglen **'SHARE with Schools'** yn cyrraedd pobl ifanc mewn ysgolion ac yn chwalu'r rhwystrau i addysg uwch. Mae ein myfyrwyr yn cyflwyno gweithdai ysbrydoledig mewn ysgolion, gan ennill profiad addysgu gwerthfawr yn yr ystafell ddosbarth.

**SHARE ag ysgolion**

## Cydweithio â'r gymuned

Rydym yn falch o'n gwreiddiau yn ein cymuned leol yng Nghymru, ac mae gennym gysylltiadau arbennig o gryf â'r sector treftadaeth, yn benodol ein partneriaeth hirsefydlog ag Amgueddfa Cymru. Caiff y gwreiddiau hyn eu hadlewyrchu yn yr ystod o grefyddau'r byd a welir yn ein prifddinas gosmopolitan, sy'n bair o ddinasyddion oherwydd ei hanes diwydiannol a morol.





Mae ein Prosiect y Fryngaer Gudd wedi manteisio ar dreftadaeth i ail-lunio dyfodol cymuned ysbrydoledig drwy gydweithio â'r elusen leol, Gweithredu dros Gaerau a Threlái, diolch i gymorth sylweddol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. O'i gychwyn cyntaf fel Prosiect Treftadaeth CAER, mae'n parhau i fod â gwreiddiau cadarn yn y gymuned, gan ddod yn enghraifft ddisglair genedlaethol o ymgysylltu ac ymchwil mewn partneriaeth sydd wedi ennill nifer o wobrau.

## Cynhyrchu effaith

Mae amrywiaeth ein pynciau ac ehangder ein harbenigedd yn arwain at effaith ymchwil eang. Ein cadwraethwyr ni oedd yn gyfrifol am achub yr SS Great Britain rhag cael ei difrodi gan rwd, ac mae ein hymchwil wedi ein helpu i ddeall newidiadau o ran hunaniaeth mewnfudwyr i Gymru wrth iddynt addasu i ddiwylliannau Cymru. Rydym hefyd wedi darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn gwella gofal bugeiliol i Fwslimiaid mewn sefydliadau cyhoeddus.

Heddiw, mae ein gwaith yn helpu i ddechrau trafodaethau mewn cymdeithas. Er enghraifft, mae'r prosiect ymchwil tair blynedd Ymchwilio i Imamiaid Prydain yn trawsffurfio dealltwriaeth ac yn creu cyfeirbwynt parhaol ar gyfer gwaith ymchwil yn y dyfodol ar weithwyr crefyddol Mwslimaidd proffesiynol.

## Adnoddau cyfoethog, cyfleusterau pwrpasol

Cynhelir y rhan fwyaf o ddarlithoedd, sesiynau ymarferol a thiwtorialau yn Adeilad John Percival. Mae Llyfrgell y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol drws nesaf i ni, sy'n gartref i gasgliadau ac archifau helaeth ym meysydd Archaeoleg, Hanes yr Henfyd a Hanes, yn ogystal ag amrywiaeth eang o ffynonellau cynradd ar gyfer astudio crefyddau'r byd. Yma, gallwch bori drwy ein Casgliadau Arbennig nodedig, sy'n cynnwys amrywiaeth o eitemau, o bapurau cabinet y DU a phapurau'r Cenhedloedd Unedig, i'r casgliad penigamp o 14,000 o lyfrau prin a hynafiaethol sy'n ffurfio Casgliad Caerdydd.

## Cyfleusterau archaeoleg a chadwraeth ar flaenau eich bysedd

Mae ein hadeilad yn cynnwys labordai arbenigol a gynlluniwyd yn bwrpasol at ddibenion cadwraeth ac archaeoleg. Gyda dros filiwn o bunnoedd o fuddsoddiad diweddar yn ein cyfleusterau, a mwy i ddod, mae gan ein labordai ystod drawiadol o offer arbenigol ar gyfer ymchwil ac addysgu. Mae gan ein myfyrwyr fynediad at ein harbenigedd a'n cyfleusterau, gan gynnwys ein stiwdios darlunio a ffotograffiaeth, ystafelloedd cadwraeth, labordai bioarchaeoleg a chasgliadau cyfeirio.

## Teithiau maes

Ymysg y teithiau Archaeoleg a gynhelir yn rheolaidd ceir teithiau i safleoedd o arwyddocâd rhyngwladol, o safle byd-enwog Côr y Cewri i safleoedd o ddiddordeb arbennig yma yng Nghymru, o'r cyfnod Neolithig hyd at yr Oesoedd Canol. Mae casgliadau clodwiw Amgueddfa Cymru wrth law, ac rydym yn cynnal teithiau i ganolfannau pwysig megis yr Amgueddfa Brydeinig yn rheolaidd. Diolch i Gronfa Cyril Fox, gall myfyrwyr archaeoleg a chadwraeth wneud cais am grantiau teithio i fynd i safleoedd perthnasol, ac mae adnodd tebyg ar gyfer hanes yr henfyd.

**Archwiliwch ein cyfleusterau, a gyflwynwyd gan ein harbenigwyr**

## A oeddech yn gwybod?

Mae'r sector treftadaeth yn gwneud cyfraniad enfawr at economi'r DU, gan greu miloedd o swyddi.

Ystyriwch archaeoleg fasnachol. Wedi'i gynnal cyn prosiectau seilwaith, mae'r gwaith sylfaenol hwn yn ffynnu ledled y DU. Yn ei adroddiad yn 2019, adroddodd Historic England fuddsoddiad o 31 biliwn o bunnoedd a swm enfawr, 464,000 o swyddi, yn Lloegr am y flwyddyn honno yn unig.

# **Astudio** dau bwnc

Cyfuno pynciau o fewn yr ysgol neu gyda disgyblaethau eraill yn y dyniaethau.

**Mae ein rhaglenni cyd-anrhydeddau neu radd integredig yn rhoi cyfle i chi astudio dau bwnc mewn un radd.**

Dewiswch bynciau rydych chi eisoes yn eu caru neu sy'n cyflwyno rhywbeth hollol newydd, gan ddatgloi mwy o wybodaeth, sgiliau gwell a llwybrau gyrfa amrywiol.

**Hanes yr Henfyd a'r canlynol:**

- Hanes (BA) V117

**Archaeoleg a'r canlynol:**

- Archaeoleg a'r canlynol: VVC4
- Hanes (BA) VV14

**Hanes a**

- Hanes yr Henfyd (BA) VVC4
- Archaeoleg (BA) VV14
- Llenyddiaeth Saesneg (BA) VQ13
- Athroniaeth (BA) VV15
- Gwleidyddiaeth (BA) LV21
- Cymraeg (BA) QV51

**Astudiaethau Crefyddol a'r canlynol:**

- Athroniaeth (BA) VV65





# **Agor** eich byd

## Mae astudio dramor yn cynnig cyfle i chi ehangu'ch gorwelion, dysgu am ddiwylliannau newydd a meithrin dealltwriaeth o foesau ac arferion gwahanol. Fe welwch eich bod yn datblygu mewn ffyrdd annisgwyl ac efallai'n dysgu iaith newydd hefyd!

Yn ddiweddar, mae myfyrwyr wedi mwynhau'r agwedd ryngwladol y mae hyn yn ei gynnig mewn prifysgolion partner yn Ewrop (mewn gwledydd fel yr Eidal, yr Almaen a Norwy) ac ymhellach i ffwrdd yng Nghanada, Hong Kong ac UDA.

### Sut mae astudio dramor yn gweithio?

Byddwch yn treulio'ch trydedd flwyddyn mewn sefydliad partner cymeradwy diolch i'n rhaglenni cyfnewid gyda phrifysgolion tramor. Yna, byddwch yn dychwelyd i Gaerdydd ar gyfer eich blwyddyn olaf.

Os oes gennych ddiddordeb yn yr opsiwn hwn, a bod eich rhaglen astudio yn golygu eich bod yn gymwys (nid yw rhai rhaglenni cydanrhydedd gyda phynciau y tu allan i'r ysgol wedi'u cynnwys) yna gallwch wneud cais ym mlwyddyn 2. Edrychwch ar ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

### Ieithoedd i bawb

Gan agor byd o gyrchfannau newydd, diwylliannau ysbrydoledig a dewisiadau gyrfa cyffrous, mae ein rhaglenni Ieithoedd i Bawb a Cymraeg i Bawb am ddim i fyfyrwyr.

Mae Arabeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Japaneeg, Tsieinëeg Mandarin, Portiwgaleg, Rwsieg a Sbaeneg ar y rhestr ar hyn o bryd. Gyda gwersi Cymraeg yn cael eu cynnig fel cyllun ar wahân, sy'n eich galluogi i archwilio ac ymgysylltu ag amrywiaeth gyfoethog yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

### Cyfleoedd yn y byd go iawn

Mae gwaith maes ymarferol dewisol a chyfleoedd gwirfoddoli cymunedol yn cynnig ffyrdd o archwilio pynciau a'u perthnasedd mewn amgylchedd â mwy o ffocws. Ar draws ein dinas amrywiol, mae ein myfyrwyr wedi cyfrannu at brosiectau cenhadaeth ddinesig y brifysgol - yn Nhrelái a Chaerau.

Mae ein myfyrwyr hefyd yn parhau i fwynhau gwirfoddoli ym mhrosiect SHARE with Schools, gan ennill profiad gwerthfawr yn yr ystafell ddosbarth.

### Cymdeithasau myfyrwyr ar gyfer pob diddordeb a phrofiadau newydd

Mae dros 200 o gymdeithasau myfyrwyr i chi eu darganfod yn ein Hundeb Myfyrwyr bywiog.

Mae ein myfyrwyr yn arwain y Gymdeithas Hanes hynod boblogaidd - gyda theithiau gartref a thramor - ac yn cynnal rhaglen lawn ar gyfer Cymdeithas Hanes yr Henfyd, Archaeoleg a Chadwraeth.

Chwaraeon, ffydd, amgylchedd, actifiaeth, gwleidyddiaeth: mae llawer ar gael. Does dim dwywaith mai dyma'r ffordd orau i fanteisio i'r eithaf ar y brifysgol - a ffrindiau gydol oes. Ewch amdani!

**Rhagor o wybodaeth**





**Treuliais i flwyddyn ym Mhrifysgol Connecticut yn astudio hanes yr UD a'r Americanwyr Brodorol yn y man lle digwyddodd popeth.**

Roedd yn gyfle gwirioneddol anhygoel!

**Enfys Evans,** Llenyddiaeth Saesneg a Hanes (BA 2017)



# **Dechrau** da i’ch gyrfa

Mae cyflogadwyedd yn bwysig i ni, ac rydym yn eich annog i ystyried eich dyfodol a’ch dyheadau o ran gyrfa yn gynnar yn eich astudiaethau er mwyn sicrhau y byddwch ar lwybr carlam at lwyddiant.

Mae tîm Dyfodol Myfyrwyr y brifysgol yn darparu cymorth gyda chynllunio gyrfa drwy gydol eich astudiaethau ac ar ôl graddio, gan gynnwys beth i’w wneud â’ch gradd, chwilio am swydd a recriwtio. Mae hyn hefyd yn agor nifer o leoliadau mewn amrywiaeth o sectorau cyffrous i chi.

Bydd gennych fynediad at raglen o weithgareddau seiliedig ar waith i roi hwb i’ch sgiliau a’ch gwybodaeth, yn ogystal â chyngor i’ch helpu i adeiladu eich CV a’ch cymhwysedd yn y broses ymgeisio am swydd. Bydd hyn yn eich helpu i gyflwyno’ch hun yn y ffordd orau posibl a sicrhau eich swydd gyntaf ar lefel raddedig.

## Rhoi chi ar y blaen: profiad byd go iawn

Gallwn eich cefnogi i gael profiad gwaith, interniaethau a swyddi i raddedigion. Mae ein modiwl cyflogadwyedd sy’n dwyn credydau - a gynigir ym mlwyddyn 2 - yn rhoi cyfle pellach i chi ymgymryd â lleoliad gwaith a gwella eich cynllunio gyrfa.

## Cipolwg ar sectorau diwydiant

Rydym yn defnyddio ein rhwydweithiau i gynnig cyfleoedd craff sy’n canolbwyntio ar ddiwydiant, o sesiynau sy’n canolbwyntio ar y sector gydag arbenigwyr perthnasol i sgyrsiau gwadd llawn gwybodaeth mewn meysydd fel cyhoeddi a threftadaeth. Cewch gyfle i gael cipolwg pellach ar yrfaoedd, tueddiadau cyfredol y farchnad swyddi ac amgylcheddau proffesiynol mewn ystod o weithgareddau, gyda’n cynfyfyrwyr hefyd yn cynnig eu cynghorion gorau a’u harbenigedd amhrisiadwy hefyd.

## Graddau sy’n cynnig cyflogadwyedd

Mae ein holl raglenni gradd wedi’u cynllunio i gynyddu eich cyflogadwyedd ac i ddatblygu’r sgiliau allweddol sydd eu hangen mewn gyrfaoedd ar lefel graddedigion.

Byddwch yn ymarfer hunanddibyniaeth ddeallusol, yn esblygu’r gallu i brosesu gwybodaeth a llunio barn ystyriol, ac yn dangos tystiolaeth o barodrwydd i chwilio am atebion, ochr yn ochr â sgiliau trosglwyddadwy craidd fel cyfathrebu, gweithio mewn tîm, rheoli amser a chryfder mewn technolegau gwybodaeth a chyfathrebu.

## Lleoliadau archaeoleg a chadwraeth yn y byd go iawn

Nid yn unig y mae ein graddau archaeoleg a chadwraeth yn cynnig hyfforddiant arbenigol ar gyfer gyrfaoedd yn y sector treftadaeth, maent hefyd yn rhoi cipolwg i chi o’n harbenigwyr uchel eu parch, sydd oll yn gweithio mewn cydweithrediad agos yn y maes yn y DU a thu hwnt.

Yn fwy na hyn, mae’r rhaglenni hyn i gyd yn cynnwys 8 wythnos o brofiad ymarferol dros yr haf cyn blwyddyn 2 a blwyddyn 3, boed hynny ar gloddio neu mewn amgueddfeydd ac unedau yn y sector treftadaeth.

I ni, mae’r profiad ymarferol hwn, wedi’i asesu, yn hanfodol ar gyfer eich datblygiad ac yn flas go iawn ar ein proffesiynau ar waith. Felly, yn wahanol i’r rhan fwyaf o brifysgolion yn y DU, mae’r lleoliadau hyn yn cael eu hariannu’n llawn gan yr ysgol. Yn ymarferol, mae ein graddedigion yn dweud wrthym mai dyma’r agwedd fwyaf cofiadwy ar y radd hefyd.








## Gwirfoddoli: ehangu gorwelion, ennill sgiliau

Ar draws ein prifddinas amrywiol, lle mae popeth yn agos at ei gilydd, mae ein myfyrwyr wedi cyfrannu at brosiectau cenhadaeth ddinesig y brifysgol - yng Nghaerau a Threlái ym mhrosiect Treftadaeth CAER. Mae gwaith maes ymarferol dewisol a chyfleoedd gwirfoddoli cymunedol yn cynnig ffyrdd o archwilio pynciau a'u perthnasedd mewn amgylchedd â mwy o ffocws.

## Blas ar addysgu

Mae profiad yn yr ystafell ddosbarth yn opsiwn gwych os ydych chi'n ystyried addysgu fel eich cam nesaf. Fel ysgol rydym wedi arloesi ein prosiect SHARE with Schools, gan gynnig cyfle i fynd i'r ystafell ddosbarth a rhannu eich angerdd am hanes, archaeoleg neu grefydd. Mae pawb ar eu hennill, wrth i ni anelu at ehangu gorwelion disgyblion lleol o gefndiroedd amrywiol a llai breintiedig i anelu at addysg uwch hefyd. Mae cyfranogwyr, yn y gorffennol a'r presennol, yn rhoi sgôr uchel i'r profiad hwn ar gyfer gwella eu sgiliau y tu hwnt i addysgu, yn enwedig ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfathrebu.

Ac mae mwy o gyfleoedd ym mhrosiect Profiad Ystafell Ddosbarth y brifysgol, sy'n darparu profiad gwirfoddol mewn ysgolion lleol dethol.

## Beth mae ein graddedigion yn ei wneud?

Mae ein graddedigion yn dilyn ystod eang o yrfaoedd, gyda chynfyfyrwyr fel arfer yn creu gyrfaoedd mewn sectorau treftadaeth, creadigol a dielw ac yn cael effaith mewn meysydd nodedig o'u dewis, boed hynny mewn busnes, newyddiaduraeth, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, addysgu, y gwasanaeth sifil, y lluoedd arfog neu'r gyfraith a llawer mwy.

**Rhagor o wybodaeth**

# Hanes yr Henfyd

## Archwiliwch wareiddiadau hynafol dros ddwy fileniwm, yn ymestyn o Gwlad Groeg hynafol a Rhufain i Mesopotamia, Iran a thu hwnt.

Mae hanes yr henfyd wedi'i wreiddio yn y dyniaethau, ond rydyn ni'n cael ein llywio gan y gwyddorau hefyd, gydag archaeoleg yn datgelu mwy a mwy o'n treftadaeth hynafol. Yn wahanol i lawer o brifysgolion yn y DU, rydym yn ymchwilio i fydoedd hynafol ymhell y tu hwnt i Wlad Groeg a Rhufain, ac o gwymp Teyrnas Newydd yr Aifft i gynnydd Islam.

Gyda ni, byddwch yn darganfod byd hynafiaeth trwy ddeunyddiau ffynhonnell wreiddiol: llenyddiaeth hynafol, yn amrywio o gerddi epig a dogfennau cyfreithiol i ddramâu theatr a llythyrau preifat. Yn agored i etifeddiaeth gyfoethog archeoleg, celf, pensaernïaeth a diwylliant materol, byddwch yn cael teimlo'r gorffennol yn eich dwylo.

Yn berthnasol ac yn fyw heddiw, mae hanes hynafol yn gwneud i ni feddwl am y presennol ac edrych i'r dyfodol mewn ffyrdd amrywiol a chyffrous. Mae effaith y gwareiddiadau hynafol hyn i'w deimlo o hyd yn niwylliannau modern y byd, gan lunio pwy ydym ni heddiw.

**Clywed mwy am ein graddau**

### Cyfleoedd Cydanrhydedd

Rydym yn cynnig graddau cydanrhydedd, sy'n eich galluogi i gyfuno hanes yr henfyd ag archaeoleg neu hanes. Cewch fanylion ar dudalen 4.

### Blwyddyn astudio dramor

Rydym yn cynnig cyfleoedd i wella eich gradd gyda blwyddyn ychwanegol o astudio dramor. Cewch fanylion ar dudalen 6.



# Hanes yr Henfyd BA
**Côd UCAS: V110**

**Mae ein gradd yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol o strwythurau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol cymdeithasau hynafol y Dwyrain Agos ac ardal Môr y Canoldir.**

Byddwch yn dysgu hanfodion y cyfnodau a themâu mwyaf dylanwadol o oes yr henfyd, ac yn meistroli'r sgiliau sydd eu hangen i archwilio'r gorffennol drwy gynllunio eich gradd ar sail eich diddordebau.

Yn anarferol yn y DU, mae ein rhaglen hefyd yn eich galluogi i astudio Mesopotamia, y Lefant, yr Aifft a Gogledd Affrica ac ymerodraethau Persia a'r Byzantium.

I ni mae hanes cymdeithasol a diwylliannol yr un mor bwysig â hanes gwleidyddol. Byddwch yn dod i gysylltiad â themâu diddorol sy'n berthnasol heddiw, o ryfela, rhywedd, crefydd, celf a llenyddiaeth i feddygaeth a gwyddoniaeth. Yn arbennig o boblogaidd yw effaith



hynafiaeth ar ddiwylliant cyfoes, o gemau digidol i ffasiwn a sinema.

Mae ein gradd wedi'i chynllunio i'ch helpu i feithrin sgiliau hanesydd. Byddwch yn meistroli'r gwaith o asesu amrywiaeth o dystiolaeth a gwerthuso dehongliadau amrywiol, a all fod yn groes i'w gilydd, er mwyn llunio eich dadleuon cadarn mewn ffurfiau ysgrifenedig arloesol - ac ar lafar hefyd.

P'un a oes gennych ddiddordeb mewn Homer neu Herod, Babilon neu Bacchus, Persia neu Pericles, Cleopatra neu Carthage - mae byd cyfan o hynafiaeth yn aros i chi ei archwilio.

**I gael gwybodaeth lawn, gan gynnwys gwybodaeth am ein modiwlau bob blwyddyn, ewch i'n gwefan.**





## Peidiwch â chymryd ein gair ni amdano'n unig...

**“Roeddwn bob amser yn benderfynol o astudio hanes yr henfyd.**

Roedd Prifysgol Caerdydd yn ymddangos yn ddewis amlwg ar gyfer ei lleoliad ar y dechrau, ond buan iawn y sylweddolais fod amrywiaeth a hyblygrwydd y radd yn gyfle rhy gyfoethog i'w wrthod.

Y modiwlau y gwnes i eu mwynhau fwyaf oedd y rhai a oedd yn archwilio agweddau unigol ar gymdeithas Roegaidd a Rhufeinig mewn manylder dwys megis rhywioldeb, diwylliant, rhyfela a chrefydd a'r rhai a oedd yn ymdrin â gwareiddiadau llai adnabyddus fel y Persiaid a'r Etrusgiaid. Fe wnaeth y rhain fy helpu i weld yr hen fyd mewn goleuni hollol wahanol.

**Robbie Morris,**
Hanes yr Henfyd (BA 2022)

**Cwrdd â'n myfyrwyr**

# Archaeoleg a Chadwraeth

## Datgelu bywydau dynol yn y gorffennol, gan gadw ein treftadaeth ddiwylliannol.

Mae archeoleg yn ein galluogi i ddatgelu bywyd dynol yn y gorffennol. O ddeietau a chredoau i'r offer yr oedd pobl yn eu defnyddio a'r tai roeddent yn byw ynddynt. Mae ein dulliau archeolegol arbenigol yn datgelu mwy am sut yr ydym wedi byw, newid, a gadael ein hôl ar y byd o filoedd o flynyddoedd yn ôl i'r gorffennol diweddar.

Mae cadwraeth yn ymchwilio ac yn cadw ein gwrthrychau treftadaeth ddiwylliannol, gan sicrhau gofal medrus a chydymdeimladol o arteffactau treftadaeth a diwylliannol ar draws y byd.

Mae ein harbenigwyr yn dod â'u harbenigedd enwog ar draws ystod eang o feysydd, gan gynnwys bioarchaeoleg, cadwraeth a chynhanes, a hanes cynnar, i mewn i'w haddysgu. Rydym yn rhannu ein gwybodaeth arbenigol helaeth am archaeoleg Prydain, Môr y Canoldir ac Ewrop a Phrydain Rufeinig ac Ewrop ganoloesol. Ym maes cadwraeth, rydym yn dod â'n harbenigedd mewn cadw gwrthrychau materol i'r ystafell ddosbarth, o weithio ar y darn papyrws Eifftaidd lleiaf i longau mawr o bwysigrwydd hanesyddol fel yr SS Great Britain.



Yn ffres o'n canmlwyddiant, rydym yn arloeswyr y tu allan i'r byd academaidd hefyd. Mae ein camau arobryn wrth ymgysylltu â'r cyhoedd yn gosod y safon: o fynd â'r gorffennol i filoedd mewn gwyliau yn y DU fel Glastonbury gydag Archaeoleg Guerrilla i Brosiect Treftadaeth CAER, sy'n helpu cymuned i archwilio a dathlu ei gorffennol ei hun.

Mae ein cysylltiadau ar draws y sector treftadaeth gartref a thramor yn agor cyfoeth o brofiad yn y byd go iawn. Mae'r ymrwymiad hwn yn golygu 8 wythnos o waith maes archeolegol a ariennir yn llawn neu leoliadau treftadaeth ac amgueddfeydd yn y DU neu dramor, profiad israddedig annibynnol sy'n ein gwahaniaethu oddi wrth y graddau anrhydedd sengl mwyaf tebyg. Mae ein graddau BA a BSc wedi'u hachredu gan Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr (CIfA), y corff proffesiynol ar gyfer archaeoleg ym Mhrydain.

### Cyfleoedd Cydanrhydedd

Rydym yn cynnig graddau cydanrhydedd, sy'n eich galluogi i gyfuno hanes yr henfyd ag archaeoleg neu hanes.

Gan adlewyrchu astudiaethau deuol, mae myfyrwyr sy'n astudio'r cyfuniadau pwerus hyn yn ennill 4 wythnos o waith maes neu leoliad wedi'i ariannu'n llawn dros un haf. Gweler tudalen 4 am fanylion.

### Blwyddyn astudio dramor

Rydym yn cynnig cyfleoedd i wella eich gradd gyda blwyddyn ychwanegol o astudio dramor. Cewch fanylion ar dudalen 6.



### Cwrdd â'n staff

Dewch i glywed beth sy'n ysbrydoli ein hacademyddion arloesol yn eu hymchwil a'u haddysgu.

Cwrdd â'r bioarcheolegydd, **yr Athro Jacqui Mulville**, sylfaenydd Archaeoleg Guerrilla

Cwrdd â'r osteoarcheolegydd **Dr Richard Madgwick**

**Rhagor o wybodaeth am ein graddau**

ACCREDITED UAUK & CIfA DEGREE

## Archaeoleg BA a BSc

### Codau UCAS: F400 (BA); F402 (BSc)

**Byddwch yn ymchwilio i olion materol cymdeithasau a diwylliannau'r gorffennol, o'r Cynhanes cynharaf hyd at heddiw.**

Archaeoleg yw'r astudiaeth o olion cymdeithasau'r gorffennol, o'r eitemau bach a wisgir ar y corff i gyfadeiladau anferth megis Côr y Cewri. Gan gyfuno'r gwyddorau a'r dyniaethau, mae archaeoleg yn eich arfogi i ddeall yn well beth yw bod yn ddynol, gan eich galluogi i astudio dynoliaeth o'r hominidau cynharaf bum miliwn o flynyddoedd yn ôl i heddiw.

Bydd ein gradd yn eich cyflwyno i'r amrywiaeth o dystiolaeth a astudir gan archaeolegwyr, o dirweddau, adeiladau a henebion i weddillion bwyd ac eitemau pob dydd.

Byddwch yn meithrin y sgiliau penodol sydd eu hangen i astudio'r dystiolaeth amrywiol hon, ynghyd â gwybodaeth eang am eu cyd-destun ehangach, a fydd yn eich paratoi ar gyfer gyrfa ym maes archaeoleg, y sector treftadaeth ac y tu hwnt.

Rydym yn canolbwyntio ar feithrin eich sgiliau ymarferol, yn y maes ac yn y labordy, a byddwch yn elwa ar 8 wythnos o waith maes neu leoliadau gwaith archeolegol a ariannir yn llawn, yn y DU a thramor.

Mae ein rhaglenni wedi'u cynllunio i fod yn hyblyg, gan roi cyfle i chi deilwra eich astudiaethau ar sail eich diddordebau, a dysgu gydag arbenigwyr sy'n gwneud ymchwil blaenllaw mewn amrywiaeth fawr iawn o gyfnodau a phynciau. Rydym yn cynnig arbenigeddau mewn archaeoleg Ynysoedd Prydain, Ewrop a Môr y Canoldir, gan gynnwys yr Aifft.

I ddilyn gradd sy'n canolbwyntio ar wyddoniaeth ymchwilio, rydym yn argymell ystyried ein gradd BSc.

Yn angerddol am y gorffennol, rydym yn falch o rannu ein disgyblaeth. Rydym yn addysgu o'r dechrau, heb ddisgwyl astudiaeth flaenorol.

## Cadwraeth Gwrthrychau mewn Amgueddfeydd ac Archaeoleg BSc

### Côd UCAS: F482

**Gan ganolbwyntio ar astudio a chadw gwrthrychau diwylliannol, mae ein rhaglen alwedigaethol yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol i warchod ein treftadaeth.**

O dan hyfforddiant arbenigol gan academyddion uchel eu parch yn rhyngwladol, byddwch yn dysgu sut i gydlynu'r ymchwiliad gwyddonol i arteffactau. Byddwch yn astudio strwythur defnyddiau diwylliannol, sut maent yn dirywio a sut y dylid eu gwarchod, gan symud ymlaen at waith ymarferol gydag amrywiaeth eang o eitemau archeolegol a hanesyddol. Trwy drin gwrthrychau o amgueddfeydd, cloddiadau a thai hanesyddol ledled y DU yn ein labordai pwrpasol, rydych chi'n datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'u cyfansoddiad, eu technoleg a'r dulliau a ddefnyddir i'w gwarchod.

**Lleoliadau ymarferol - yn y DU a thramor**

Byddwch hefyd yn ennill hyd at 8 wythnos o leoliad mewn amgueddfeydd a phrosiectau treftadaeth ddiwylliannol yn y DU a thramor. Yn ddiweddar, mae myfyrwyr wedi mynd i Amgueddfa Llundain, Amgueddfa Fitzwilliam ac Amgueddfa Cymru, yn ogystal â lleoliadau tramor yn amrywio o Agora Athenian yng Ngwlad Groeg i'r Field Museum yn Chicago, UDA.

**I gael gwybodaeth lawn, gan gynnwys gwybodaeth am ein modiwlau bob blwyddyn, ewch i'n gwefan.**





## Peidiwch â chymryd ein gair ni amdano'n unig...

**"Fel rhan o'm gradd israddedig, cyflawnais leoliad mewn archaeoleg fasnachol a oedd yn fy ngalluogi i gael syniad gwych o fyd gwaith archeolegol.**

Fe wnes i hefyd ennill swydd yng nghynllun interniaeth y brifysgol yn dilyn fy ngradd israddedig. Caniataodd hyn i mi gymryd rhan yn ymchwil arloesol y brifysgol ym maes sŵo-archaeoleg a dadansoddi isotop.

**Hannah Lycett-Smith,** Archaeoleg a Hanes yr Henfyd (BA 2022)



# Hanes

## Byddwch yn archwilio bydoedd y gorffennol ac yn ehangu eich dealltwriaeth o newidiadau hanesyddol.

Gan feithrin chwilfrydedd deallusol, rydym yn cael ein swyno gan y gorffennol a sut mae'n cysylltu â'r presennol.

Bydd ein haneswyr yn datblygu eich dealltwriaeth feirniadol o sawl cyfnod mewn hanes ac yn cefnogi eich ymdrechion i ddeall diwylliannau hanesyddol anghyfarwydd a chymhleth.

Rydym yn ymdrin ag amrywiaeth drawiadol o feysydd pwnc, cyfnodau cronolegol ac ymagweddau at y gorffennol, gan adlewyrchu ein harbenigedd ar draws mil o flynyddoedd o hanes byd-eang hyd at yr 21ain ganrif; o Gymru a Phrydain i Affrica a Dwyrain Ewrop; o Rwsia a Gogledd America hyd at Japan a Tsieina.

Gan ymchwilio i wahanol gyfnodau amser a lleoedd, byddwch yn ystyried pynciau cyfoes fel newid gwleidyddol; ymddangosiad gwladwriaethau newydd; effaith momentau hanesyddol hinsoddol a'r ystod o chwyldroadau gwleidyddol, diwylliannol a chymdeithasol.

Y tu hwnt i ystyried pynciau mwy traddodiadol fel totalitariaeth Ewropeaidd neu'r Chwyldro Americanaidd, gallwch hefyd archwilio ymagweddau newydd cyffrous at y gorffennol gan gynnwys hanes amgylcheddol, rhyweddol a digidol.

Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y ffordd yr effeithiwyd ar bobl nid yn unig gan brosesau newid dwys, ond hefyd sut y gwnaethant helpu i lunio'r trawsnewidiadau hyn. Ynghyd â'n myfyrwyr, rydym yn ymdrechu i ddeall profiadau pobl gyffredin yn ogystal â'r rhai a feddiannodd swyddi o rym, boed yn chwyldroadwyr, ffoaduriaid, neu ddinasyddion gwladwriaethau sy'n datblygu.

### Cyfleoedd Cydanrhydedd

Rydym yn cynnig graddau cydanrhydedd, sy'n eich galluogi i gyfuno hanes â gwleidyddiaeth, llenyddiaeth Saesneg, archaeoleg a hanes yr henfyd. Cewch fanylion ar dudalen 4.

### Blwyddyn astudio dramor

Rydym yn cynnig cyfleoedd i wella eich gradd gyda blwyddyn ychwanegol o astudio dramor. Cewch fanylion ar dudalen 6.



## Hanes BA

### Côd UCAS: V100

**Yn uchel ei pharch am ei haddysgu arloesol a'i hystod ddaearyddol a chronolegol, mae ein rhaglen gyffrous yn agor ystod eang o feysydd pwnc o fil o flynyddoedd o hanes byd-eang.**

Gallwch archwilio hanes cymdeithasau mewn gwahanol rannau o'r byd, gyda haneswyr sy'n arwain.

Bydd ein gradd heriol a gwerth chweil yn meithrin eich sgiliau meddwl a dysgu annibynnol, gan eich galluogi i ymchwilio i bynciau mewn modd cynhwysfawr, a dehongli ffynonellau gwreiddiol o amrywiaeth o leoedd a chyfnodau.

Rydym yn arloesol o ran ein dulliau o ymdrin â hanes a'i addysgu, gyda chryfderau mewn meysydd sy'n cynnwys hanes rhyw, dosbarth, trawswladol, amgylcheddol a digidol.

Mae ein harbenigedd ymchwil yn ysbrydoli ac yn cyfoethogi ein portffolio addysgu amrywiol. O lawysgrifau canoloesol wedi'u hysgrifennu gan fynachod a diplomyddion, trwy lythyrau cyfoedion Shakespeare i'r gwrthrychau materol a ddefnyddiwyd gan weithredwyr gwleidyddol modern, mae ein haddysgu yn fyw gyda'r



ffynonellau yr ydym yn dod ar eu traws yn ein hymchwil ein hunain.

Ymysg ein meysydd arbenigol mae'r Unol Daleithiau, yr Almaen, Rwsia, Dwyrain Ewrop, Ffrainc, Prydain, Cymru, India a Tsieina.

**Ysgrifennu eich Hanes eich hun**

Erbyn eich blwyddyn derfynol, dan arweiniad arbenigwr yn y mae, byddwch yn barod i ymchwilio i broblem hanesyddol o'ch dewis yn eich traethawd hir eich hun.

**I gael gwybodaeth lawn, gan gynnwys gwybodaeth am ein modiwlau bob blwyddyn, ewch i'n gwefan.**

**Clywed mwy am ein graddau**



### Peidiwch â chymryd ein gair ni amdano'n unig...

**Mae pob aelod o'r staff academaidd yn wybodus iawn ac yn barod i helpu.**

Mae'r cwrs yn cynnig cyfle i fod yn hyblyg iawn o ran y cynnwys, felly gallwch deilwra eich gradd. Yn y diwedd, gwnes i fwynhau'r pynciau y byddwn i wedi eu hanwybyddu yn flaenorol.

**Oliver Isaac,** Hanes (BA 2019)



# Crefydd

## Croeso i astudiaeth dynoliaeth.

Mae'r astudiaeth o grefydd yn archwilio'r cymhellion sydd wedi gyrru gwareiddiadau, siapio hanes, ac sy'n parhau i effeithio ar y byd o'n cwmpas, yn unigol ac yn fyd-eang.

Mae penawdau heddiw yn parhau i gynnwys y cwestiynau mawr am sut rydym yn dewis byw ein bywydau, beth mae'n ei olygu i fod yn ddynol, effaith crefydd ar fywyd bob dydd, a chydnabod y rhan fawr y mae ffydd grefyddol - a'r crefyddau niferus - yn ei chwarae yn y byd.

Gan astudio gyda ni, byddwch yn archwilio crefyddau hanesyddol a chyfoes. Ond yn wahanol i lawer o brifysgolion, byddwch yn astudio ar draws a thu hwnt i brif grefyddau'r byd, fel crefyddau Americanaidd Brodorol ac Affricanaidd Brodorol, yn ogystal â'r cysyniad o grefydd ei hun.

Byddwch yn dysgu sut nad yw cymdeithas o reidrwydd yn fwy neu'n llai crefyddol, ond yn hytrach sut mae pobl yn deall ac yn ymgysylltu â chrefydd fel syniad yn amrywio. Byddwch yn ystyried duwioldeb unigol a rôl cymuned. Byddwch hefyd yn cael cyfleoedd i weithio gydag ieithoedd newydd, ymgymryd â gwaith maes, neu astudio mewn maes sydd o ddiddordeb i chi yn bersonol.

Rydym yn defnyddio dull amlddisgyblaethol, gan ddod ag arbenigedd sy'n adlewyrchu safbwyntiau hanesyddol, cymdeithasegol, diwinyddol a thestunol, gan roi ystod eang o gymwysiadau a sgiliau i chi wrth i chi ddechrau ar eich gyrfa ar ôl y brifysgol.




### Cyfleoedd Cydanrhydedd

Rydym yn cynnig graddau cydanrhydedd, sy'n eich galluogi i gyfuno astudiaethau crefyddol ac athroniaeth. Cewch fanylion ar dudalen 4.

### Blwyddyn astudio dramor

Rydym yn cynnig cyfleoedd i wella eich gradd gyda blwyddyn ychwanegol o astudio dramor. Cewch fanylion ar dudalen 6.



## Crefydd a Diwinyddiaeth BA

### Côd UCAS: V6V6

**Gyda'n gilydd, rydym yn archwilio hanesion, diwylliannau a chredoau traddodiadau crefyddol mawr a llai adnabyddus.**

Rydym yn ystyried systemau hanes a chred traddodiadau crefyddol, gan ymchwilio i gwestiynau amrywiol sy'n parhau i fod yn bynciau trafod llosg hyd heddiw. Mae ein modiwlau wedi'u cynllunio i agor y themâu cyfoes hyn, o hunaniaeth grefyddol mewn cymdeithasau modern a'r cyfryngau i'r foeseg sy'n llunio ein barn ar bynciau, o'r amgylchedd i rywioldeb a hawliau atgenhedlu.

Byddwch yn dod yn fedrus wrth arsylwi arferion crefyddol yn sensitif, gan ddysgu craffu ar ffynonellau diddorol o wrthrychau materol i gyfryngau gweledol fel ffilm a grëwyd gan grwpiau crefyddol.

Mae gennych y rhyddid i deilwra eich rhaglen, gan gyfuno ymagweddau thematig, cymdeithasegol, anthropolegol, ieithyddol a hanesyddol. Byddwch hefyd yn dewis o amrywiaeth o ddulliau ac arbenigeddau ymchwil ar draws a thu hwnt i Fwdhaeth, Cristnogaeth, Hindŵaeth ac Islam.

Yn anarferol, gallwch hefyd astudio ieithoedd hynafol i werthfawrogi testunau crefyddol allweddol fel y Quran, y Beibl, a'r Bhagavad Gita yn well.

Beth bynnag fo'ch diddordebau, bydd ein hacademyddion blaenllaw - pob un yn heintus o angerddol am eu pynciau - yn dod â meddwl ac ymchwil gyfoes i bob modiwl.





### Peidiwch â derbynein gair ni amdano'n unig...

**"Y rheswm roeddwn i wrth fy modd â fy mhwnc oedd oherwydd nad ydych chi'n dysgu am grefydd yn unig.**

Rydych chi'n dysgu am bobl, y gyfraith, cymdeithas a hanes. Mae Caerdydd yn lle amrywiol: y ffrindiau a'r cydberthnasau yw'r pethau agosaf at fy nghalon.

**Megan Richards,** Crefydd a Diwinyddiaeth, BA 2018

**Rhagor o wybodaeth am ein graddau**





# Ceisiadau

## Gofynion mynediad

Mae ein rhaglenni'n boblogaidd iawn. Rydym fel rheol yn cael mwy na 1,700 o geisiadau ar gyfer tua 380 o leoedd. Rydym yn chwilio am ganlyniadau rhagorol, a gwir frwdfrydedd dros eich dewis o ddisgyblaeth. Rydym yn derbyn y rhan fwyaf o bynciau ar lefel Uwch ac Uwch Gyfrannol (ac eithrio Meddwl yn Feirniadol ac Astudiaethau Cyffredino), er bod yn well gennym bynciau academaidd traddodiadol ar lefel Safon Uwch.

## Cynigion nodweddiadol

Mae cynigion ar gyfer rhaglenni anrhydedd sengl yn dod o fewn yr ystod ABB-BBC ar hyn o bryd. Am ofynion a gwybodaeth benodol am raddau cyd-anrhydedd ac integredig, ewch i'n gwefan.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl arferion a gweithgareddau.

Ein nod yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n rhydd o wahaniaethu ac sy'n seiliedig ar werthoedd urddas, cwrteisi a pharch. Rydym yn cydnabod hawl pob person i gael ei drin yn unol â'r gwerthoedd hyn. Rydym wedi ymrwymo i wella cydraddoldeb ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred (gan gynnwys diffyg cred), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym hefyd am feithrin perthynas dda â grwpiau gwahanol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
**https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/equality-and-diversity**

## Ffioedd dysgu

Gweler y wefan ganlynol am ragor o wybodaeth:
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/tuition-fees**

## Ysgoloriaethau a bwrsariaethau

Am ragor o wybodaeth, ewch i'r wefan ganlynol:
**www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/funding/scholarships**






## Sut i ddod o hyd i ni

### Allwedd

- Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd
- Adeiladau'r Brifysgol a'r GIG
- Preswylfeydd myfyrwyr

Lleolir yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd yn Adeilad John Percival ar gyffordd Heol Corbett, Plas y Parc a Theras Cathays. Rydym wrth galon Campws Cathays, yn agos at orsaf drenau Cathays ac mae'n hawdd ein cyrraedd o neuaddau preswyl y brifysgol.

I gael gwybod mwy, ewch i'n gwefan:
**www.caerdydd.ac.uk/hanes-archaeoleg-crefydd**



## Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â'r cylch derbyn myfyrwyr ar gyfer dechrau astudio yn 2025, ac mae'n gywir wrth fynd i'r wasg ym mis Mehefin 2024. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan **www.caerdydd.ac.uk** cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, cynnwys y wefan fydd yn bwysicach, a hwn sy'n nodi sut rydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Eich gradd: Mae myfyrwyr a dderbynnir i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

FSC www.fsc.org MIX Paper from responsible sources FSC® C023480

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, yn defnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prosbectws a'r broses gynhyrchu wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu hefyd hyd at safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855.

Gellir trefnu i'r prosbectws hwn fodar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall cysylltwch â Laura Roberts:

Ffôn: **029 2087 4455**
Ebost: **RobertsL9@cardiff.ac.uk**

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

**I gael rhagor o wybodaeth am yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd**

**Cysylltwch â ni**

Ysgol Hanes, Archaeoleg
a Chrefydd
Prifysgol Caerdydd
Adeilad John Percival
Rhodfa Colum
Caerdydd
CF10 3EU

**Cadwch mewn cysylltiad**

CaerdyddUniHanes
ArchaeolegCrefydd

@ cuhistarchrel

SHARE